



Canllaw ar y
Cynllun Gradd Sêr

PENTREFI GWYLIAU

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad

1.1 Cyffredinol

- 1.1.1 Dynodwyr
- 1.1.2 Gofynion Cyffredinol
- 1.1.3 Y Broses Asesu

1.2 Datganiad Mynediad

1.3 Cynaliadwyedd a Hygyrchedd

- 1.3.1 Cynaliadwyedd: Gwneud Busnes Hyd yn Oed yn Well
- 1.3.2 Gwella Hygyrchedd

1.3 Datganiad Mynediad

1.4 Naws am Le

1.5 Nodiadau Canllaw i Weithredwyr

- 1.5.1 Cyffredinol
- 1.5.2 Derbynfya
- 1.5.3 Siopau/Salonau
- 1.5.4 Ystafelloedd Adloniant
- 1.5.5 Ardaloedd Trwyddedig
- 1.5.6 Bwytai a Safleoedd Bwyd
- 1.5.7 Cyfleusterau Chwaraeon
- 1.5.8 Cyfleusterau Hamdden
- 1.5.9 Cyfleusterau ar y Safle
- 1.5.10 Naws ac Awyrgylch
- 1.5.11 Cyfleusterau Teithio (os ydynt ar gael)

1.6 Llety

- 1.6.1 Llety â Gwasanaeth a Hunanddarpar
- 1.6.2 Ardaloedd Byw/Bwyta/Cegin (Hunanddarpar yn Unig)

1.7 Llety Hunanddarpar

- 1.7.1 Goleuadau/Gwres
- 1.7.2 Darnau Gosod, Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau
- 1.7.3 Darnau Gosod, Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau (Mannau Cyhoeddus)
- 1.7.4 Lloriau
- 1.7.5 Llestri, Cyllyll a Ffyr, a Chyfarpar
- 1.7.6 Glendid
- 1.7.7 Rhestr Cyfarpar ar gyfer Llety Hunanddarpar (Cabanau Gwyliau Cartrefi Gwyliau Carafanau, Fflatiau)
- 1.7.8 Ystafelloedd Gwely – Â Gwasanaeth a Hunanddarpar
- 1.7.9 Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau
- 1.7.10 Gorchuddion Llwr
- 1.7.11 Gwelyau a Dillad Gwely
- 1.7.12 Glendid
- 1.7.13 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau – Â Gwasanaeth a Hunanddarpar
- 1.7.14 Darnau Gosod a Gosodiadau

- 1.7.15 Lloriau
- 1.7.16 Glendid
- 1.8 Mannau Cyhoeddus (Â Gwasanaeth yn Unig)**
- 1.8.1 Addurniadau/Gorffeniad Mewnol
- 1.8.2 Goleuadau/Gwres
- 1.8.3 Darnau Gosod, Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau
- 1.8.4 Lloriau
- 1.8.5 Glendid
- 2.0 Cod Ymddygiad**
- 3.0 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan**
- 4.0 Newid Perchenogaeth**
- 5.0 Arwyddion**
- 6.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd**

1.0 Cyflwyniad

Ystyrir mai cael cynnyrch o ansawdd yng Nghymru yw'r ffactor pwysicaf er mwyn i Gymru allu cynnig profiad o'r radd flaenaf i'w hymwelwyr a gallu cystadlu yn y farchnad fyd-eang. Mae Croeso Cymru yn cydnabod hyn ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda'r diwydiant er mwyn sicrhau bod ein llety, ni waeth y math o lety sydd dan sylw, yn parhau'n gystadleuol.

Bydd gradd sêr yn bwysig i ddefnyddwyr wrth iddynt ddewis rhywle i aros ynddo neu ymweld ag ef a bydd ystod Croeso Cymru o Gynlluniau Gradd Sêr yn rhoi tawelwch meddwl i unrhyw ddefnyddiwr y bydd unrhyw eiddo sy'n arddangos argymhelliad swyddogol gan Croeso Cymru wedi cael ymweliad i fwrw golwg dros y lle cyn i chi gyrraedd.

Mae codi safonau yn hollbwysig i ddatblygiad twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, felly byddem yn eich annog i weithio gyda Croeso Cymru drwy ba un bynnag o'n cynlluniau gradd sêr sydd fwyaf addas i'r math o eiddo sydd gennych.

1.1 Cyffredinol

Rhaid sicrhau bod modd i ymwelwyr wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am ble i aros ac, yn yr un modd, mae'n hanfodol bod pentrefi gwyliau yn y wlad hon yn cyrraedd y safon y mae ymwelwyr yn ei disgwyl.

Mae'r safon gyfredol wedi cael ei datblygu ar y cyd â'r Gymdeithas Canolfannau Gwyliau. Yn ogystal ag edrych ar ansawdd yr holl gyfleusterau, **caiff lletygarwch, y gwasanaethau a gynigir, ac ansawdd gwahanol fathau o lety eu hasesu.**

Mae llety pentrefi gwyliau yn cwmpasu unedau â gwasanaeth a hunanddarpar, fel cartrefi gwyliau carafanau, cabanau gwyliau a fflatiau.

1.1.1 Dynodwyr

- **Pentref Gwyliau:** Fel rheol, mae Pentref Gwyliau yn cynnwys amrywiaeth o lety, sydd yn aml yn bwrpasol; gydag amrywiaeth o adloniant, gweithgareddau a chyfleusterau ar gael am ddim neu am gost ychwanegol ar y safle. Yn aml trefnir aros am dridiau, pedwar diwrnod neu wythnos.

Y Safon

Croeso Cymru fydd yn gweithredu'r cynllun yng Nghymru.

Er mwyn cael gradd fel Pentref Gwyliau, bydd sefydliad fel arfer yn cynnwys amrywiaeth o fathau o lety, gyda'r mwyafrif wedi'u darparu mewn ystafelloedd pwrpasol (e.e. cabanau gwyliau, ystafelloedd gwesty). Bydd amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau hefyd ar gael, a all gael eu cynnwys neu eu hepgor o ran y tariff.

Mae'r gofynion cyffredinol a'r broses asesu yn dilyn.

1.1.2 Gofynion Cyffredinol

Mae gan berchenogion gyfrifoldeb i sicrhau bod yr holl rwymedigaethau statudol perthnasol sydd ar waith ar hyn o bryd yn cael eu cyflawni, a bydd Croeso Cymru yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig, pan wneir cais am radd ac ar y cam adnewyddu, mai dyma'r achos. Hefyd, mae Croeso Cymru yn disgwyl i bob perchennog ddangos tystiolaeth o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus cyfredol (sy'n briodol i faint y pentref a nifer y gwesteion dan sylw).

Rhaid i lety a chyfleusterau fodloni gofynion perthnasol y rhwymedigaethau statudol, lle y bo hynny'n gymwys, gan gynnwys:

- Rhagofalon tân
- Deddfwriaeth Diogelu Defnyddwyr
- Diogelwch bwyd
- Trwyddedu
- Iechyd a Diogelwch
- Disgrifiadau Masnach
- Gwahaniaethu ar Sail Anabledd
- Rhaid i gyfarpar trydanol ac olew gael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel a bod mewn cyflwr da a chael ei wasanaethu'n rheolaidd, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith, rhaid cael tystysgrif diogelwch landlord gyfredol sy'n cadarnhau bod yr holl osodiadau nwy wedi'u harchwilio gan osodwr sydd wedi'i gofrestru o dan gynllun CORGI yn y 12 mis diwethaf.
- Rhaid bod unrhyw gartrefi gwyliau carafanau wedi'u hadeiladu yn unol â safonau diogelwch Ewropeaidd, a rhaid iddynt gynnwys cyflenwad dŵr, system ddraenio, cysylltiadau nwy/trydan, gan gynnwys bath a/neu gawod, a thoiled ar y prif gyflenwad.

Croeso a chyrraedd

- Rhaid bod trefniadau wedi'u gwneud yn y dderbynfa i groesawu gwesteion ar adegau priodol a'u tywys i'w hystafell/carafan/caban gwyliau/llain, ac i roi cyngor a chymorth os oes angen.

- Rhaid rheoli'r safle yn dda a'i gadw'n lân ac mewn cyflwr derbyniol. Dylid talu sylw i'r arwydd wrth ymyl y ffordd a'r fynedfa i'r safle.

Iechyd a diogelwch

- Rhaid cyrraedd safonau diogelwch cyffredinol uchel.
- Dylid sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y llety.
- Rhaid arddangos hysbysiadau mewn argyfwng mewn man amlwg, gan roi manylion a lleoliad cyswllt a rhif ffôn y safle, meddyg, gwasanaeth tân, ysbyty lleol, a gwasanaethau hanfodol eraill. Gallai'r rhain gael eu rhoi yn y llety a'r dderbynfa.
- Rhaid bod gan y safle offer diffodd tân a hysbysiadau sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog/unigolyn cyfrifol pob eiddo/busnes gynnal asesiad risgiau tân, gan gymryd camau dilynol fel sy'n briodol i leihau a/neu ddileu'r risg.
- Rhaid bod gan bob gosodiad trydanol, yn fewnol ac yn allanol, y dosbarthiad diogelwch priodol.
- Dylid sicrhau bod modd gwaredu gwastraff yn briodol.

1.1.3 Y Broses Asesu

Mae system farcio Pentrefi Gwyliau yn rhoi mwy o bwyslais ar elfen hanfodol glendid – yn ymchwil defnyddwyr VB nodwyd bod hyn yn ganolog i fwynhau'r arhosiad/ymweliad. Caiff pob agwedd ar y cyfleusterau a'r llety ei hasesu o 1 i 5 fel a ganlyn, a cheir canran gyffredinol wedyn – rhoddir y bandiau llwyddo hefyd:

Sgoriau ansawdd % sydd ei hangen i gael 1-5 seren

| | | |
|----------------|-------|------------|
| 1 = Derbyniol | ★ | 40% – 48% |
| 2 = Eithaf Da | ★★ | 49% – 60% |
| 3 = Da | ★★★ | 61% – 72% |
| 4 = Da lawn | ★★★★ | 73% – 84% |
| 5 = Ardderchog | ★★★★★ | 85% – 100% |

Os nad enillir sgôr o '1' mewn unrhyw faes ni chaiff y safle ei raddio o gwbl. Y meysydd a gaiff eu hasesu yw:

- Y dderbynfa (gan gynnwys gwasanaeth a lletygarwch)
- Siopau/salonau
- Ystafelloedd adloniant (gan gynnwys gwasanaeth a lletygarwch)

- Ardaloedd trwyddedig (gan gynnwys gwasanaeth a lletygarwch)
- Bwytai/safleoedd bwyd (gan gynnwys gwasanaeth a lletygarwch)
- Cyfleusterau chwaraeon
- Mannau chwarae/hamdden
- Cyfleusterau'r Pentref
- Naws ac awyrgylch
- Llety
- Cyfleusterau teithio (os yw'n gymwys)

(Rhoddir mwy o fanylion yn y tudalennau canlynol.)

Er mwyn asesu gwasanaeth a lletygarwch, bydd angen aros un neu ddwy noson, yn dibynnu ar nifer y cyfleusterau a safleoedd bwyd yn y Pentref. Y Pentref Gwyliau fydd yn talu'r holl dreuliau a gwneir y gwaith graddio yn gyfrinachol. Fodd bynnag, gan fod gwesteion fel arfer yn aros 4 diwrnod neu fwy, mae'n arferol i'r Uwch-reolwyr drefnu arhosiad o noson neu ddwy tra bo gweddill staff y Pentref ddim callach am yr asesiad.

D.S. mae Glendid, Gwasanaeth ac effeithlonrwydd a Lletygarwch a bod yn gyfeillgar yn werth dwywaith y sgoriau eraill.

Gofynion mynediad sylfaenol

Er mwyn cyrraedd y safon hon, rhaid i bob safle fodloni'r holl ofynion mynediad sylfaenol a restrir yn y llyfryn hwn.

Ennill 5 Seren

Er mwyn ennill 5 seren, yn ogystal â chynnig ansawdd o'r radd flaenaf, rhaid darparu'r cyfleusterau canlynol hefyd:

- Dillad gwely (a thywelion) am ddim.
- Gwres ym mhob ystafell, gyda system wresogi sydd â rheolyddion awtomatig, thermostatig ac unigol.
- Toiled ychwanegol â basn a bath/ cawod os oes mwy na 6 gwestai (gall y toiled fod ar wahân i'r ystafell ymolchi).

Dangosyddion ansawdd

Yn yr adran ar lety, rhoddir enghreifftiau o'r ansawdd a ddisgwylir er mwyn ennill sgôr ansawdd o 1 i 5 ym mhob maes. Lle y defnyddir ymadroddion fel derbyniol, da, da iawn ac ati, maent ond yn dynodi lefelau ansawdd cynyddol mewn termau cyffredinol yn unig. Maent yn amhenodol yn fwriadol, gan gydnabod yr ystod eang o elfennau ansawdd a allai fod dan sylw.

Mae'r 'Dangosyddion Ansawdd' yn cynrychioli disgwyliadau nodweddiadol. Nid ydynt yn ddiffiniol nac yn gynhwysfawr.

Bydd y radd a roddir mewn gwirionedd yn seiliedig ar ddarlun cytbwys o'r cyfleusterau a'r llety a ddarperir.

| Sgôr ansawdd | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|----------------------|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Ansawdd | Ffactorau sy'n dynodi'r lefel ofynnol o ansawdd sy'n dderbyniol | Ffactorau sy'n dynodi Sgôr Ansawdd o 3 (Da) | | | Ffactorau sy'n dynodi Sgôr Ansawdd o 5 (Ardderchog) |

Os bydd Cynghorydd Ansawdd yn tynnu eich sylw at enghreifftiau o arfer dda – boed hynny mewn llyfrgell luniau neu drwy grybwyll enghreifftiau mewn parciau cyfagos eraill, bwriedir iddynt eich helpu, ac efallai y byddwch yn penderfynu eu rhoi ar waith. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, mai dim ond enghreifftiau lle mae eitem wedi cael sgôr uchel ydynt, ond gall enghreifftiau eraill sgorio cystal. Weithiau gall bod yn ymwybodol o enghreifftiau da ddylanwadu ar eich syniadau chi eich hun.

1.2 Datganiad Mynediad

Beth yw Datganiad Mynediad? Cyfrif clir, cywir a gonest yw hwn o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y gall ymwelwyr anabl eu disgwyl NAWR, gan eu galluogi i ddewis y lleoliad sydd fwyaf addas iddynt.

NODER: Un o amodau cael eich graddio gan Croeso Cymru yw bod yn rhaid llunio datganiad mynediad a nodi pa mor hygyrch yw eich busnes. Dylai gael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau dros amser, a dylai fod ar gael i ddarpar westeion. Mae'n syniad da rhoi'r Datganiad Mynediad ar-lein fel arfer.

Am gyngor ar sut i ysgrifennu Datganiad Mynediad, ewch i: www.visitbritain.org/business-advice/make-your-business-accessible/create-accessibility-guide

(Rhoddir mwy o fanylion yn y tudalennau canlynol.)

1.3 Cynaliadwyedd a Hygyrchedd

1.3.1 Cynaliadwyedd: Gwneud Busnes Hyd yn Oed yn Well

Mae twristiaeth werdd ac arferion cynaliadwy o fewn eich busnes yn golygu yr un peth; mae'n ymwneud â gwneud y pethau bychain sy'n eich galluogi i weithredu hyd yn oed yn well, nid yn wahanol. Bydd newidiadau bach nid yn unig yn arbed arian i chi, yn gwella cydberthnasau â chyfflogeion, yn creu mwy o elw ac yn rhoi gwell profiad i gwsmeriaid, ond, dros amser,

byddwch hefyd yn gwella effaith eich busnes ar yr economi leol, eich cymuned a'r amgylchedd. Nid oes rhaid i 'Fynd yn Wyrdd' fod yn faich, ac mae yr un mor gymwys i eiddo canol dinas ag ydyw i eiddo gwledig.

Mae Croeso Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo arferion cynaliadwy ymhlith busnesau twristiaeth. Ein nod yw sicrhau bod cynaliadwyedd yn ategu profiad cyffredinol ymwelwyr yng Nghymru. Mae angen eich help chi er mwyn cyflawni'r nod hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i wella eich busnes i fod yn fwy cynaliadwy, ewch i www.visitengland.org/green lle gallwch hefyd weld astudiaethau achos ar fuddiannau mabwysiadu arferion cynaliadwy.

1.3.2 Gwella Hygyrchedd

Mae gan lawer o bobl anghenion mynediad, fel y rhai â nam ar eu clyw ac ar eu golwg, pobl sydd mewn cadair olwyn, pobl hŷn a llai symudol, a phobl â bygis. Mae'r farchnad twristiaeth hygyrch yn tyfu am fod y boblogaeth yn heneiddio.

Drwy wneud addasiadau bach i'ch cyfleusterau, rhoi gwybodaeth am ba mor hygyrch ydych chi, a deall anghenion pobl anabl, bydd eich busnes yn apelio i fwy o ymwelwyr ac yn denu mwy o fusnes. Ar hyn o bryd, mae mwy o alw am lety hygyrch na'r hyn sydd ar gael. Dysgwch sut mae busnesau twristiaeth eraill yn cael budd o'r farchnad deyrngar hon yn www.visitengland.org/access

Er mwyn asesu gwasanaeth a lletygarwch, bydd angen aros un neu ddwy noson, yn dibynnu ar nifer y cyfleusterau a safleoedd bwyd yn y Pentref.

1.4 Naws am Le

Er nad yw ansawdd byth yn colli ei blwyf, bydd creu Naws am Le yn helpu i sicrhau bod eich ymwelwyr yn cael profiad bythgofiadwy.

Gall fod yn rhywbeth syml, fel ychwanegu arwyddion, cynnyrch, neu nodwedd at eich busnes er mwyn creu nawws lleol. Neu beth am ddysgu ffeithiau diddorol am eich ardal i'w rhannu â'ch ymwelwyr? Mae 'croeso' syml hefyd yn creu argraff gyntaf arbennig o dda.

Dyma drosolwg o frand Cymru a rhywfaint o arweiniad ar ein nawws am le. Gobeithio y bydd hyn yn eich helpu i gynnig profiad heb ei ail i'ch ymwelwyr.

Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael rhagor o wybodaeth.

1.5 Nodiadau Canllaw i Weithredwyr

1.5.1 Cyffredinol

Os darperir mwy nag un math o gyfleuster – siopau, hamdden, clybiau, bariau ac ati – caiff pob un ei asesu'n unigol a gwneir asesiad "cyfartalog" sy'n adlewyrchu'r ansawdd cyffredinol.

Glendid

Glendid pob cyfleuster yw un o'r agweddau pwysicaf ar y cynllun. Er mwyn ennill y marciau uchaf, bydd yr aseswyr yn disgwyl i'r lle fod fel pin mewn papur, er y byddant yn ystyried y tywydd a chyflwr y safle ar y pryd.

Mae'n hawdd gweld sbwriel, llwch a baw. Dylid rhoi sylw penodol i fannau o dan gyfarpar nad yw'n cael ei symud, a'r tu ôl iddo, ynghyd â chorneli a sgyrtins, mannau sydd wedi'u paentio, ffenestri, siliau, pibellau, ffaniau echdynnu, goleuadau, waliau a lloriau. Os na chyrhaeddir safonau glendid mewn unrhyw ardal, ni chaiff yr eiddo ei raddio.

1.5.2 Y Dderbynfa

Gall ardal y dderbynfa amrywio o gyfleuster pwrpasol i gyfleuster a rennir. Gall hefyd gynnwys "Gwasanaethau i Westeion" drwy'r Pentref.

Os nad oes derbynfa o unrhyw fath, dim ond "Croeso ac Effeithlonrwydd y Gwasanaeth" a "Cynnwys a chywirdeb deunydd gwybodaeth" yn unig a asesir.

Glendid

— Gweler Tudalen 5 1.5.1

Y cynllun a faint o le sydd y tu mewn

— Bydd yr asesydd yn edrych am loriau, celfi, addurniadau a dylunio mewnol o ansawdd da. Ystyrir faint o le sydd i ymwelwyr symud o gwmpas, ynghyd â faint o seddi sydd ar gael. Dylai ardal y dderbynfa fod yn groesawgar ac yn ddeniadol – mae'r argraff gyntaf a gaiff y cwsmer yn bwysig iawn.

Décor a gwaith cynnal a chadw

— Rhaid cynnal a chadw'r lle a sicrhau ei fod yn ddeniadol. Unwaith eto, mae'r argraff gyntaf yn bwysig.

Croeso ac effeithlonrwydd y gwasanaeth

— Mae'n bwysig gallu cael gafael ar rywun yn gyflym a bod y staff yn rhadlon. Ystyrir pethau fel tywys y gwestai i'w ystafell, caban neu gartref gwyliau carafán, a ph'un a oes rhywun wrth y dderbynfa ai peidio.

Lletygarwch a Chyfeillgarwch

— Pa mor gwrtais yw'r staff ac i ba raddau y maent yn rhyngweithio â'r gwesteion.

Cynnwys a chywirdeb deunydd gwybodaeth

— Gall yr agwedd hon, sydd â'r nod o asesu'r argraff a gaiff y cwsmeriaid cyn cyrraedd, gynnwys galwad ffôn gan yr asesydd i ofyn am lyfryn a rhoi'r cyfle iddynt ddilyn y map. Gellir nodi faint o amser y mae'n ei gymryd i gael y wybodaeth, a sut mae'r llyfryn yn adlewyrchu'r busnes a'i gyfleusterau.

1.5.3 Siopau/Salonau

Wrth asesu'r siop(au)/salon(au), bydd yr asesydd yn ystyried yn benodol y math o safle sydd dan sylw a'i faint.

Glendid

— Gweler Tudalen 5 1.5.1

Y tu mewn

— Bydd yr asesydd yn edrych am loriau, celfi, addurniadau a dylunio mewnol o ansawdd da. Ystyrir faint o le sydd i ymwelwyr symud o gwmpas, ynghyd â faint o seddi sydd ar gael. Dylai ardal y dderbynfa fod yn groesawgar ac yn ddeniadol – mae'r argraff gyntaf a gaiff y cwsmer yn bwysig iawn.

Décor a gwaith cynnal a chadw

— Rhaid bod y lle wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a bod yn ddeniadol i ennill marciau uchel.

Gosodiadau a Lloriau

— Asesir ansawdd a chyflwr y darnau gosod a gosodiadau a'r lloriau, fel sy'n briodol i'r cyfleuster.

1.5.4 Ystafelloedd Adloniant

Fel gyda chyfleusterau eraill, os oes mwy nag un ystafell adloniant, gwneir asesiad 'cyfartalog' byrddau, seddi a bar neu gownteri gweini.

Glendid

— Gweler Tudalen 5 1.5.1

Y tu mewn

— Bydd yr asesydd yn edrych i weld a oes digon o le i'r nifer tebygol o ddefnyddwyr symud

o gwmpas, ynghyd ag ansawdd a hwylustod y cynllun. Ystyrir digon o le i symud rhwng byrddau a chadeiriau yn fwy cadarnhaol, yn ogystal â chynllun sy'n galluogi'r rhan fwyaf o westeion i weld y llwyfan yn dda.

Décor a gwaith cynnal a chadw

- Rhaid cynnal a chadw'r lle a sicrhau ei fod yn ddeniadol. Gall fod yn fwy ffansi nag ardaloedd eraill.

Celfi a Gosodiadau

- Asesir ansawdd y celfi a'r gosodiadau, pa mor gysurus ydynt a pha mor dda y maent yn cael eu cynnal a'u cadw. Bydd hyn yn cynnwys byrddau, seddi, bar neu gownteri gweini yn yr ystafelloedd adloniant, gosodiadau goleuadau a lloriau ac ati.

Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd

- Asesir ansawdd a safon y gwasanaeth fel sy'n briodol i'r math o fusnes dan sylw. Dylai'r staff fod yn gymwys ac yn effeithlon, gan ddangos gofal cwsmeriaid da iawn.

Lletygarwch a Chyfeillgarwch

- Pa mor gwrtais yw'r staff ac i ba raddau y maent yn rhyngweithio â'r gwesteion.

1.5.5 Ardaloedd Trwyddedig

Fel gyda chyfleusterau eraill, os oes mwy nag un ardal drwyddedig, gwneir asesiad 'cyfartalog'.

Glendid

- Gweler Tudalen 5 1.5.1

Y tu mewn

- Bydd yr asesydd yn edrych i weld beth yw ansawdd yr addurniadau, pa mor dda y caiff y waliau, lloriau, seddi, byrddau, cownteri bar a celfi eu cynnal a'u cadw, a faint o le sydd i symud o gwmpas. Ystyrir y gwaith dylunio a chynllunio, yn ogystal ag unrhyw blanhigion, blodau, lluniau ac ati sydd i'w gweld.

Décor a gwaith cynnal a chadw

- Rhaid cynnal a chadw'r lle a sicrhau ei fod yn ddeniadol.

Celfi a Gosodiadau

- Asesir ansawdd a lefelau cysur, cyflwr y lle ac i ba raddau y caiff y celfi a'r gosodiadau eu cynnal a'u cadw. Bydd hyn yn cynnwys byrddau, seddi a chownteri gweini neu'r bar.

Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd

- Asesir ansawdd a safon y gwasanaeth fel sy'n briodol i'r math o fusnes dan sylw. Dylai'r staff

fod yn gymwys ac yn effeithlon, gan ddangos gofal cwsmeriaid da iawn.

Lletygarwch a Chyfeillgarwch

- Pa mor gwrtais yw'r staff ac i ba raddau y maent yn rhyngweithio â'r gwesteion.

1.5.6 Bwytai a Safleoedd Bwyd

Fel gyda chyfleusterau eraill, ar gyfer pob safle yn yr adran hon, gwneir asesiad 'cyfartalog'. Fodd bynnag, caiff defnydd a phwysigrwydd y cyfleuster yng nghyd-destun y busnes ei ystyried. Er enghraifft, os oes dau gyfleuster yn y rhan hon, e.e. bwyty mawr sy'n gweini brecwast a swper, a chownter tecawê bach, yna bydd yr asesiad yn adlewyrchu'r ffaith mai'r bwyty sydd bwysicaf.

Glendid

- Gweler Tudalen 5 1.5.1

Y tu mewn

- Bydd yr asesydd yn edrych i weld beth yw ansawdd yr addurniadau, i ba raddau y mae'r waliau, lloriau, seddi, byrddau a celfi wedi'u cynnal a'u cadw, a faint o le sydd i symud o gwmpas. Ystyrir y gwaith dylunio a chynllunio, yn ogystal ag unrhyw blanhigion, blodau, lluniau ac ati sydd i'w gweld.

Décor a gwaith cynnal a chadw

- Rhaid cynnal a chadw'r lle a sicrhau ei fod yn ddeniadol.

Celfi a Gosodiadau

- Asesir ansawdd a lefelau cysur, cyflwr y lle ac i ba raddau y caiff y darnau gosod a gosodiadau eu cynnal a'u cadw. Bydd hyn yn cynnwys byrddau, seddi, cownteri gweini, gosodiadau goleuadau a lloriau ac ati.

Amrywiaeth o Fwydydd

- Asesir yr amrywiaeth o fwydydd sydd ar gael a faint o ddewis sydd ar y fwydlen. Ystyrir y math o fusnes a'r farchnad sydd dan sylw.

Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd

- Asesir ansawdd a safon y gwasanaeth fel sy'n briodol i'r math o fusnes sydd dan sylw. Dylai'r staff ddarparu gwasanaeth cymwys a bod yn barod eu cymwynas. Ystyrir gwasanaeth prydlon ac effeithlon sydd â lefelau gofal cwsmeriaid uchel a sgiliau technol da yn gadarnhaol.

Lletygarwch a Chyfeillgarwch

- Pa mor gwrtais yw'r staff ac i ba raddau y maent yn rhyngweithio â'r gwesteion.

1.5.7 Cyfleusterau Chwaraeon

Mae'r adran hon yn cynnwys cyfleusterau mwy ffurfioledig sydd dan do neu yn yr awyr agored e.e. cyrtiau tenis, bowls, cyrtiau badminton a sboncen ac ati.

Glendid

— Gweler Tudalen 5 1.5.1

Cynllun

— Dylai'r cyfarpar a'r cyfleuster yn gyffredinol fod o faint sy'n addas ar gyfer y gweithgaredd, a dylai fod wedi'i ddylunio a'i leoli mewn modd dychmygus. Ystyrir ei ddefnydd tebygol mewn perthynas â'i faint.

Ansawdd yr Adeiladau/Cyfleusterau ac i Ba Raddau y Caiff y Rhain a'r Cyfarpar eu Cynnal a'u Cadw

— Mae'r agweddau hyn yn ddwy eitem ar wahân yn yr asesiad. Yn y ddau achos, bydd yr asesydd yn ystyried ansawdd cynhenid y ddarpariaeth, a pha mor dda y mae wedi'i chynnal a'i chadw.

1.5.8 Cyfleusterau Hamdden

Mae'r adran hon yn cynnwys cyfleusterau llai ffurfioledig sydd dan do neu yn yr awyr agored e.e. arcedau difyrion, bowlio deg, ystafelloedd pŵl/snwcer, ardaloedd chwarae i blant, a phyllau hwyl neu hamdden.

Glendid

— Gweler Tudalen 5 1.5.1

Cynllun

— Dylai'r cyfarpar a'r cyfleuster yn gyffredinol fod o faint sy'n addas ar gyfer y gweithgaredd, a dylai fod wedi'i ddylunio a'i leoli mewn modd dychmygus. Ystyrir ei ddefnydd tebygol mewn perthynas â'i faint.

Ansawdd yr Adeiladau/Cyfleusterau ac i Ba Raddau y Caiff y Rhain a'r Cyfarpar eu Cynnal a'u Cadw

— Mae'r agweddau hyn yn ddwy eitem ar wahân yn yr asesiad. Yn y ddau achos, bydd yr asesydd yn ystyried ansawdd cynhenid y ddarpariaeth, a pha mor dda y mae wedi'i chynnal a'i chadw.

1.5.9 Cyfleusterau'r Safle

Er nad oes rhaid eu darparu, yn amodol ar ofynion lechyd a Diogelwch, asesir pob un o'r canlynol pan fyddant ar gael.

Yr Amrywiaeth o Oleuadau a'u Hansawdd

— Darparu goleuadau sy'n gymesur i'r math o fusnes sydd dan sylw, ei faint a'i leoliad. Gall fod yn gynnil, lle nad yw'n amharu ar yr awyrgylch, ond dylai fod yn ddigonol i gadw pawb yn ddiogel. Bydd angen mwy o oleuadau ar safleoedd mawr, sydd â nifer o lwybrau cerdded a ffyrdd, y rhai mewn ardaloedd coediog neu lle mae'r llety gryn bellter o'r prif gyfleusterau, na'r safleoedd hynny sy'n fach ac yn agored. Os nad oes digon o oleuadau, fe'i hystyrir yn negyddol yn yr asesiad.

Yr Amrywiaeth o Arwyddion a'u Hansawdd

— Ystyrir arwyddion clir, sydd mewn cyflwr da, ar gyfer pob cyfleuster ac i ddangos y ffordd i rywle lle y bo angen yn gadarnhaol.

Ansawdd Pwyntiau Tân

— Os ydynt yn cael eu darparu, neu os oes eu hangen, dylai pwyntiau tân a chyfarpar diffodd tân fod wedi'u dylunio'n effeithiol, a'u cynnal a'u cadw'n dda. Edrychir am gyfarwyddiadau clir i'w dilyn os bydd tân, a lleoliad y ffôn agosaf.

Yr Amrywiaeth o Gyfleusterau Gwaredu Gwastraff a'u Hansawdd

— Bydd yr asesydd yn chwilio am gyfleusterau glân, sydd wedi'u dylunio'n dda, ac sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, sydd wedi'u cuddio gan sgrîn mewn ffordd chwaethus. Mae hyn yn gymwys i unrhyw finiau neu bwyntiau gwastraff ar y safle. Ystyrir hefyd ddarpariaeth ac ansawdd ardaloedd cadw gwastraff cyn ei gasglu, a ddylai gael eu diogelu rhag anifeiliaid ac adar.

Ffonau Cyhoeddus

— Bydd yr asesiad yn adlewyrchu glendid, gwaith cynnal a chadw cyffredinol, faint o gysgod a phreifatrwydd sydd, goleuadau, ac argaeledd a darpariaeth llyfrau ffôn a chodau deialu. Hefyd, dylid arddangos rhifau achosion brys lleol ar gyfer y meddyg, deintydd, ysbyty ac ati wrth ymyl y ffôn cyhoeddus.

Ffyrrdd

— Mae ansawdd a chyflwr ffyrdd, gan gynnwys y ffordd fynediad, yn bwysig. Er nad oes angen sicrhau bod ganddynt wyneb concriid neu darmac, dylid sicrhau nad oes unrhyw geudyllau. Os gosodir 'twmpathau' cyflymder, rhaid iddynt gael eu nodi'n glir. Mae angen darparu llefydd parcio i bobl anabl, sydd wedi'u marcio.

Yr Amrywiaeth o Wybodaeth i Dwristiaid ac am yr Ardal Leol, a Sut y Caiff ei Harddangos

- Ar y cyfan, gorau po fwyaf o wybodaeth sy'n cael ei harddangos i dwristiaid ac am yr ardal leol. Dylai gael ei chyflwyno'n dda, bod yn hygyrch, a bod yn gyfredol. Yn aml, mae'n ddefnyddiol iawn dangos map mawr o'r ardal. Gall technoleg olygu bod modd defnyddio systemau teledu i ddarparu gwybodaeth.

Y Golchdy

- Mae'r asesiad yn cynnwys pob math o gyfleuster golchi dillad, o beiriannau golchi a sychu dillad masnachol i beiriannau domestig a/neu sinc syml. Dylai sinciau golchi dillad gael eu marcio'n glir fel na chaiff llestri eu golchi ynddynt hefyd. Bydd yr asesydd yn ystyried faint o le sydd i ddefnyddio'r peiriannau a'r cyfarpar yn gyfleus. Asesir glendid yn ogystal ag ansawdd a chyflwr y peiriannau a'r cyfarpar.

1.5.10 Naws ac Awyrgylch

Glendid y Safle

- Dylai pob rhan o'r safle sydd yn yr awyr agored fod yn lân, heb unrhyw sbwriel na baw anifeiliaid.

Cynllun y Safle a'i Dirlunio

- Bydd yr asesydd yn edrych i weld pa mor greadigol yw'r cynlluniau plannu, ynghyd â pha mor ystyriol y mae cyfleusterau, llety ac adeiladau wedi'u lleoli. Dylid defnyddio nodweddion naturiol, fel pren a charreg, yn effeithiol. Efallai y bydd lleoliad y safle, a'r hinsawdd yno, yn pennu'r hyn y gellir ei blannu, a chaiff hyn ei ystyried.

Cynnal a Chadw'r Tir

- Bydd yr asesiad yn adlewyrchu ardaloedd o laswellt sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, heb unrhyw fannau moel na garw, ardaloedd parcio ceir taclus heb chwyn, arwynebau caled, planwyr a gwelyau blodau. Ystyrir ardaloedd sy'n wyllt at ddibenion amgylcheddol.

Y Math o Adeilad a'i Gyflwr Allanol

- Dylai'r math o adeiladau, a'u gwedd, fod yn ystyriol o'r hyn sydd o'u hamgylch. Dylai gwedd allanol a chyflwr adeiladau, a waliau, toeon, gwteri, pibellau, ardaloedd wedi'u paentio ac ati fod yn dda. Bydd manau storio neu gynnal a chadw anniben, adeiladau sy'n mynd â'u pen iddynt, a pheirianwaith neu gerbydau segur i gyd yn effeithio ar y radd.

Asesir y tu allan i unrhyw gartrefi gwyliau carafanau yma.

Mannau parcio

- Ystyrir ansawdd a chyflwr manau parcio e.e. cilfachau â llinellau clir, sydd ag arwynebau. Os na ellir parcio wrth ymyl y llety, dylid sicrhau bod modd dadlwytho yn agosach ato.

1.5.11 Cyfleusterau Teithio (Ile'n gymwys)

Cymhareb Toiledau a Chawodydd i Leiniau

- Un o gwynion mwyaf cyffredin cwsmeriaid yw bod angen ciwio am gyfleusterau, neu ei bod hi'n anghyfleus cael cyfleusterau sy'n rhy brysur. Defnyddir hyn i wobrwyo'r safleoedd hynny sy'n mynd gam ymhellach, gan ddarparu mwy na'r nifer hanfodol o doiledau a chawodydd.

Y Tu Mewn i Gyfleusterau

- Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau cawod, toiled ac ymolchi. Mae goleuadau ac awyru da yn bwysig. Yn gyffredinol, bydd adeilad golau sy'n cael digon o awyr yn sgorio'n uwch na chyfleuster tywyll, nad yw wedi'i awyru'n dda. Mae digon o le i symud o gwmpas, a digon o ddŵr poeth hefyd yn bwysig. Dylai fod gan gawodydd a thoiledau ddigon o le.

Ansawdd Darnau Gosod a Gosodiadau

- Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau cawod, toiled ac ymolchi. Asesir ansawdd darnau gosod a gosodiadau, a'r amrywiaeth ohonynt, a ddylai gynnwys teclynnau dal papur tŷ bach a phapur tŷ bach, bachau, drychau, silffoedd/byrddau, blychau llwch, biniau sbwriel ac ati. Hefyd, bydd yr asesydd yn chwilio am sychwyr gwallt, pwyntiau rasel, cyfleusterau sychu dwylo, a biniau gwaredu cynnyrch mislif mewn toiledau.

Ansawdd Décor, Cyfleusterau, Darnau Gosod a Gosodiadau, ac i Ba Raddau y Maent yn Cael eu Cynnal a'u Cadw

- Mae'r asesiad hwn yn gymwys i ansawdd a chyflwr cyffredinol décor, lloriau, a darnau gosod a gosodiadau. Cydnabyddir ansawdd cynhenid gwell, yn ogystal ag eitemau hŷn sydd mewn cyflwr arbennig. Ni fydd eitemau sy'n edrych yn hen a/neu nad ydynt yn gweithio'n iawn mwyach yn sgorio cystal. Dylai fod modd sychu lloriau a waliau yn hawdd, e.e. teils, sgrin sment, melamin ac ati. Mae ansawdd a chyflwr toiledau, basnau ymolchi a theils yn bwysig, a bydd seddi a thapiau rhydd neu sydd wedi torri, growtio

gwael, a theils sydd wedi’u gosod yn wael, neu sydd wedi cracio neu dorri ac ati, yn cael effaith negyddol ar yr asesiad. Bydd paent sy’n pilio oddi ar waliau, nenfydau a gwaith pren, graffiti a mathau eraill o fandaliaeth hefyd yn tynnu oddi ar yr asesiad terfynol. Dylai ffenestri a drysau fod mewn cyflwr da, ac ni ddylai gosodiadau goleuadau na phibellau fod yn rhydu.

Glendid

— Gweler Tudalen 5 1.5.1

Cyfleusterau Gwaredu Cemegion ac MVWDP

— Asesir y ffordd y maent yn edrych y tu mewn a’r tu allan, pa mor lân ydynt a’u cyflwr. Bydd padell/powlen seramig neu ddr gloyw neu rywbeth tebyg, oddi-amgylch y gellir ei lanhau’n hawdd sydd â system fflwsio neu dap a pheipen i rinsio, sy’n gaeedig neu dan orchudd, yn ennill mwy o farciau na draen neu dwll â chaead syml yn yr awyr agored.

Ansawdd Pwyntiau Trydan

— Dylai pwyntiau trydan a gwasanaethau eraill ar gyfer lleiniau teithio, a chysylltiadau gwasanaeth â chartrefi gwyliau carafanau, fod mor daclus a chudd â phosibl.

1.6 Llety

1.6.1 Llety â Gwasanaeth a Hunanddarpar

Argraffiadau Cyffredinol, Lle a Chysur

Mae Argraffiadau Cyffredinol, Lle a Chysur yn ymwneud â’r dyluniad, cynllun, lle, awyru, manau storio ac ati, pa mor hawdd yw hi i gyrraedd cypyrddau, droriau, defnyddio cyfarpar a symud ar hyd coridorau.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid bod gan bob ystafell fyw ac ystafell wely o leiaf un ffenestr sy’n agor.
- Rhaid bod awyru digonol a lle rhesymol i symud, a dylai fod yn hawdd cyrraedd cyfarpar, cypyrddau, drysau a droriau.
- Ni ddylai fod unrhyw arwyddion o leithder.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Digon o le a chynllun boddhaol, lle gellir symud o gwmpas yn ddirwystr.
- Ystafelloedd taclus.
- Amgylchedd derbyniol i westeion heb fod sŵn, arogleuon na mwg ac ati yn amharu arnynt.

— Inswleiddio sŵn rhesymol, heb fawr ddim sŵn yn amharu ar westeion.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Digon o le i symud o gwmpas yn ddirwystr a lefel dda o gysur.
- Celfi sydd wedi’u lleoli’n gyfleus at ddefnydd ymarferol.
- Gallu mynd i mewn i wely dwbl o’r ddwy ochr.

Marc 5 (Ardderchog):

- Digon o le i symud o gwmpas yn ddirwystr a lefel uchel o gysur. Man i gadw bagiau heb wneud yr ystafell yn anniben a bod yn y ffordd.
- Defnydd hawdd a chyfleus o gyfleusterau.
- Digon o le i fynd i mewn i wely dwbl o’r ddwy ochr.
- Digon o awyr iach.
- Lle i fwyta sy’n addas ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion.
- Seddi cyfforddus.

1.6.2 Ardaloedd Byw/Bwyta/Cegin (Hunanddarpar yn Unig)

Addurniadau/Gorffeniad Mewnol

Yn ymwneud ag ansawdd a chyflwr gorchuddion waliau, ardaloedd wedi’u teilsio, ardaloedd wedi’u paentio, gwaith pren ac ati.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

— Rhaid bod yr holl ardaloedd sydd wedi’u paentio, gwaith paent, gorchuddion waliau ac ati mewn cyflwr da.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

— Décor ymarferol, gan gynnwys y waliau a’r nenfydau; heb ei baru’n dda iawn.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Décor o ansawdd da, sydd mewn cyflwr da, a gorffeniadau a phara ynddynt, fel teils yn yr ardaloedd gwaith.
- Mae sblasgefn yn bwysig mewn ardal goginio.
- Teils, growt a seliwr glân.
- Fawr ddim marciau, sblashis na saim, nac arwyddion eraill o goginio.
- Defnydd o luniau ac ati, lle y bo’n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.

Marc 5 (Ardderchog):

— Décor o safon ardderchog sydd wedi’i baru’n dda iawn.

- Gorchuddion waliau a theils o safon uchel, sydd mewn cyflwr ardderchog, ac ôl broffesiynol i bob agwedd ar y gwaith addurno.
- Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurniadau eraill.

1.7 Llety Hunanddarpar

1.7.1 Goleuadau/Gwres

Gofynion Mynediad Sylfaenol Goleuadau

Yn ymwneud ag ansawdd, amrywiaeth, math, darpariaeth a lleoliad prif oleuadau a goleuadau eilaidd, darpariaeth a lleoliad socedi, switshys golau ac ati.

- Rhaid bod goleuadau trydan.

Gwres

Yn ymwneud ag ansawdd, math ac addasrwydd unrhyw wres – gwresogyddion, paneli wal neu nenfwd neu wres canolog.

- Dylai fod modd gwresogi'r llety'n ddigonol, gan ystyried yr amser o'r flwyddyn a'r lleoliad.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Lefelau digonol o oleuadau sydd wedi'u lleoli'n briodol at ddibenion diogelwch.
- Lefelau digonol o wres ym mhob ardal.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da iawn):

- Goleuadau mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol. Gall gynnwys goleuadau uwchben ardaloedd gwaith yn y gegin.
- Digon o olau naturiol.
- Socedi trydan sydd wedi'u lleoli'n dda.
- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir ac sy'n hawdd ei reoli.

Marc 5 (Ardderchog):

- Mae'r llety wedi'i oleuo'n ardderchog at ddibenion amrywiol e.e. darllen, coginio. Bydd yn cynnwys goleuadau nenfwd a goleuadau ychwanegol, y mae'n hawdd eu haddasu. Gall gynnwys goleuadau uwchben y ffwrn/hob ac arwynebau gwaith.
- Digon o socedi trydan i gynnig hyblygrwydd.
- Gwres canolog ym mhob ystafell. Lefelau uchel o wres, gan gynnig hyblygrwydd a chysur.
- Gwydr dwbl i gadw'r gwres i mewn.

1.7.2 Darnau Gosod, Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Ardaloedd byw/bwyta

Yn ymwneud ag ansawdd, edrychiad, cyflwr, trefniant a maint ac ati yr holl agweddau e.e. gwresogyddion, setiau teledu ac ati, a'r holl gelfi e.e. seddi a pholstri, byrddau bwyd a chadeiriau, cypyrddau, silffoedd, clustogau, llenni, bleinds. Ystyrir gosodiadau golau a ffenestri hefyd.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid bod gan bob ffenestr lenni neu fleinds tywyll, gan gynnwys drysau mewn cartrefi gwyliau carafanau, lle mae lle i gysgu yn y lolfa.
- Dylai fod digon o seddi a bwrdd digon mawr ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion.
- Dylid darparu cadeiriau a/neu sofa, a digon ohonynt ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion a hysbysebir.

Ardal y gegin

Yn ymwneud ag ansawdd, amrywiaeth a chyflwr arwynebau gwaith, cypyrddau, unedau cegin, sinciau, llenni a/neu fleinds, powllenni golchi llestri, draenwyr, byrddau smwddio, cyfarpar glanhau ac ati.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid bod gan bob ffenestr lenni neu fleinds tywyll.
- Rhaid cael sinc â bwrdd draenio, rac sychu llestri, dŵr poeth o'r tap a dŵr yfed oer.

1.7.3 Darnau Gosod, Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau (Mannau Cyhoeddus)

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid bod o leiaf un arwyneb gwaith hylan a man storio sy'n addas ar gyfer bwyd.
- Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog/unigolyn cyfrifol pob eiddo/busnes gynnal asesiad risgiau tân, gan gymryd camau dilynol fel sy'n briodol i leihau a/neu ddileu'r risg. Yn dilyn asesiad o'r fath, gellir penderfynu gosod cyfarpar diffodd tân, ond gwneir y penderfyniad hwn yn annibynnol o Groeso Cymru.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Darpariaeth gynnil ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a gosodiadau, o ran ansawdd a niferoedd.
- Heb eu paru'n dda iawn.

- Llenni digon hir a llydan i guddio ffenestri.
- Man storio pan hysbysebair bod modd cysgu yn y lolf.
- Digon o le storio ac arwynebau gwaith cyfleus, sydd i gyd mewn cyflwr da.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Celfi o ansawdd da.
- Mwy o amrywiaeth o soffas a/neu gadeiriau breichiau â springs. Mwy o amrywiaeth.
- Paru da.
- Llenni wedi’u leinio ar bob ffenestr.
- Mannau storio hawdd eu cyrraedd ac arwynebau a phara ynddynt.
- Unedau wedi’u gosod yn dda.

Marc 5 (Ardderchog):

- Celfi o safon uchel â lefel uchel o gysur.
- Ardal fwyta â digon o le ar gyfer yr uchafswm nifer o bobl.
- Defnyddiau meddal moethus, digon o orchudd, gall fod rhyngleinin a llinynnau rhwymo.
- Celfi a defnyddiau wedi’u paru’n ardderchog.
- Unedau wedi’u gosod o safon uchel a digon o arwyneb gwaith a manau storio.

1.7.4 Lloriau

Yn ymwneud ag ansawdd, math a chyflwr carpedi, rygiau, gorchudd finyl, lloriau pren ac ati. Ystyriwch ba mor addas yw’r llawr yn y gegin.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid bod gan bob ystafell ymolchi orffeniadau neu orchuddion llawr addas.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Llawr sy’n ateb diben, sydd wedi’i osod yn dda, ac y mae para iddo. Dylid ystyried natur ymarferol a hylendid i ryw raddau.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Llawr o ansawdd da sydd mewn cyflwr da ac sy’n gyfforddus dan draed.

Marc 5 (Ardderchog):

- Llawr o safon uchel, mewn cyflwr ardderchog, lle rhoddyd sylw amlwg i hylendid a diogelwch.

1.7.5 Llestri, Cyllyll a Ffyr a Chyfarpar

Yn ymwneud ag ansawdd, amrywiaeth a chyflwr llestri, cyllyll a ffyr a gwydrau, amrywiaeth a chyflwr sosbenni, crochenwaith a chyfarpar

coginio/paratoi bwyd. Yn ymwneud ag ansawdd, amrywiaeth a chyflwr yr holl gyfarpar nwy a/neu drydan yn y gegin.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Ffwrn â gril ac o leiaf dri chylch coginio (dim ond 2 os mai dim ond 2 westai sydd).
- Oergell â blwch ia.
- Rhaid sicrhau bod digon o lestri, cyllyll a ffyr a gwydrau ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Digonedd ar gyfer nifer y gwesteion.
- Cyllyll a ffyr sy’n mynd gyda’i gilydd, er nad ydynt o’r ansawdd gorau efallai.
- Llestri, er y gallant fod o ansawdd ymarferol, trymach, sydd â’r un patrwm.
- Amrywiaeth fach o wydrau e.e. tymbleri.
- Amrywiaeth dderbyniol o feintiau o sosbenni. Pob handlen yn sownd a chaeadau sy’n ffitio’n dda.
- Gall fod ystod eang o gyfarpar, ond nid yw’n cyfateb i gyd.
- Amrywiaeth gyfyngedig o gyfarpar. Efallai y bydd rhai eitemau yn hŷn ond dylai popeth fod mewn cyflwr da.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Digonedd ar gyfer nifer y gwesteion.
- Cyllyll a ffyr o fath trymach.
- Llestri o ansawdd da, a phara iddynt, sy’n mynd gyda’i gilydd. Ni ddylai fod unrhyw dolciau na staeniau.
- Sosbenni o bob maint, sydd i gyd yn teimlo’n gadarn.
- Ni ddylai fod unrhyw gyfarpar plastig hen sydd wedi colli ei siâp.
- Amrywiaeth dda o gyllyll, llwyau pren ac ati.
- Mae’r holl gyfarpar mewn cyflwr da ac yn gweithio, e.e. nid oes unrhyw rwd na difrod mawr.
- Blwch rhew o faint da yn yr oergell.

Marc 5 (Ardderchog):

- Bwrdd smwddio oni fydd yn y golchdy. Digonedd o eitemau ar gyfer y nifer tebygol o westeion.
- Cyllyll a ffyr o ddu gloyw sydd o’r ansawdd gorau.
- Llestri o safon uchel sy’n mynd gyda’i gilydd e.e. math gwesty, sy’n cynnwys platiau bach a mawr, powlenni cawl ac ati.
- Gwydrau o safon uchel sy’n mynd gyda’i gilydd ac sydd o bob maint.
- Yr holl offer coginio o’r radd flaenaf.

- Ystod eang o eitemau ychwanegol, sydd i gyd yn mynd gyda’i gilydd. Amrywiaeth o eitemau sy’n addas ar gyfer meicrodon lle y bo’n briodol.
- Safon uchaf o gyfarpar drwyddi draw.
- Ystod ehangach o eitemau o’r radd flaenaf gan gynnwys oergell/rhewgell, peiriant golchi llestri ac ati.

1.7.6 Glendid

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid i’r eiddo, y celfi a’r cyfarpar gael eu glanhau’n drwyadl cyn i westeion newydd gyrraedd.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Mae’r holl arwynebau a chyfarpar yn lân, ac nid oes unrhyw llwch.
- Mae’r holl garpedi wedi cael eu hwfro ac mae’r lloriau wedi cael eu glanhau.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Tystiolaeth o sylw at fanylder, yn enwedig ar lefel uchel ac isel.
- Arwynebau glân. Pob ardal yn arogl’n ffres ac yn lân cyn i’r gwesteion gyrraedd.
- Sylw penodol i’r ffwrn, oergell a’r tu mewn i gypyrddau, llestri, cyllyll a ffyrc a chyfarpar.

Marc 5 (Ardderchog):

- Lefel hynod uchel o lendid.
- Mae popeth fel pin mewn papur, heb unrhyw farciau na chrafiadau.
- Tystiolaeth o lanhau trwyadl a sylw mawr at fanylder.
- Lloriau a chyfarpar cegin cwbl lân, gan gynnwys y ffwrn a’r oergell.
- Sylw penodol i fentiau neu echdynnwyr.

1.7.7 Rhestr Cyfarpar ar gyfer Llety Hunanddarpar (Cabanau Gwyliau Cartrefi Gwyliau Carafanau, Fflatiau)

Cynllun y cyfleuster, llif cwsmeriaid, pa mor hawdd ydyw i gyrraedd peiriannau a chyfarpar. Darparu ar gyfer cysur cwsmeriaid wrth iddynt ddefnyddio’r cyfleuster.

Fesul Person

- Powlen grawnfwyd/cawl
- Cambrenni
- Cwpan wy
- Fforc (bwrdd a phwdin)
- Cyllell (bwrdd ac ochr)

- Mwg
- Plât (mawr a bach)
- Llwy (pwdin a the)
- Cwpan a soser
- Tymbler

Fesul Gwely

- 2/3 blanced neu 1 duvet a gorchudd ac 1 gobennydd (Ar gyfer y gaeaf, neu pan fo’r eiddo yn cael ei osod ar ddechrau neu ar ddiwedd y tymor, dylid darparu mwy o ddilad gwely a sicrhau bod digon o wres).

2 Fesul Cartref/Caban Gwyliau

- Blychau llwch (os caniateir ysmegu)
- Dwster
- Llwyau bwrdd

1 Fesul Cartref/Caban Gwyliau/ Fflat

- Bin bara
- Cyllell fara
- Bwrdd bara/briwfwydd
- Dysgl menyng
- Cyllell a fforc torri cig
- Dysgl caserol
- Colandr
- Pupur a halen
- Corcsgriw/agorwr potel
- Ysbodol bysgod
- Cadach llawr
- Padell ffrio
- Gratur
- Tegell
- Siswrn cegin
- Lletwad
- Jwg llaeth
- Powlen gymysgu
- Padell rostio
- Llwy blastig neu bren
- Stwnsiwr
- Piliwr tatws
- Sosbenni a chaeadau (mawr, canolig, bach)
- Cyllell lysiau finiog
- Powlen siwgr
- Brwsh llawr
- Bwced
- Hwfer neu sgubwr carped ar gael
- Deunydd glanhau (hylif golchi llestri ac ati)
- Bin â chlawr neu fin agored a bagiau cynnyrch mislif yn yr ystafell ymolchi
- Bin sbwriel cegin â chlawr
- Mat drws
- Padell llwch a brwsh
- Jwg mesur
- Drych

- Sgwriwr Sosbenni/mop llestri
- Larwm neu larymau mwg
- Tebot
- Brwsh toiled a daliwr
- Teclyn dal papur tŷ bach a phapur tŷ bach
- Hambwrdd
- Dyfais agor tuniau
- Powlen golchi llestri
- Jwg dŵr
- Chwisg
- Diffoddydd tân (neu gyfarpar diffodd tân arall a bennir gan yr asesiad risg)

1.7.8 Ystafelloedd Gwely – Â Gwasanaeth a Hunanddarpar

Addurniadau/Gorffeniad Mewnol

Yn ymwneud ag ansawdd a chyflwr gorchuddion walïau, nenfydau, ardaloedd wedi'u paentio, gwaith pren ac ati.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Rhaid i'r uchod fod mewn cyflwr da.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Décor ymarferol heb fawr ddim yn cyfateb.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Décor o ansawdd da, sydd mewn cyflwr da, heb unrhyw farciau.
- Gorchuddion walïau o ansawdd da, sydd wedi'u gorffen yn dda.
- Gorchuddion walïau a nenfydau sydd wedi'u gosod yn dda.
- Defnydd o luniau ac ati, lle y bo'n briodol, yn enwedig ar walïau plaen.

Marc 5 (Ardderchog):

- Décor ardderchog lle rhoddir sylw i fanylder.
- Gorchuddion walïau o safon uchel ag ôl proffesiynol i bob agwedd ar y gwaith addurno.
- Defnydd deniadol o luniau, printïau ac addurniadau eraill.

Goleuadau/Gwres

Goleuadau

Yn ymwneud ag ansawdd, amrywiaeth, math, darpariaeth, edrychiad a lleoliad prif oleuadau a goleuadau eilaidd, darpariaeth a lleoliad socedi, switshys golau ac ati.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Rhaid i bob ystafell wely gael ei goleuo'n ddigonol â goleuadau trydan.

Gwres

Yn ymwneud ag amrywiaeth, math ac ansawdd gwres.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Dylai fod modd gwresogi pob ystafell wely yn ddigonol, gan ystyried yr amser o'r flwyddyn a'r lleoliad.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Goleuadau â lamplenni priodol o ansawdd digonol ar gyfer math, maint a siâp yr ystafell wely.
- Digon o olau naturiol.
- Mewn cartrefi gwylïau carafanau, gellir benthyg gwres o ardaloedd byw, ond serch hynny rhaid bod digon o wres ar gael. Gall gynnwys gwresogyddion, ond rhaid ystyried diogelwch.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Goleuadau mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol at ddiben darllen ac ati.
- Digon o olau naturiol.
- Socedi trydan sydd wedi'u lleoli'n dda.
- Lefel dda o wres drwy'r llety, gyda rhywfaint o reolaeth o'r thermostat.

Marc 5 (Ardderchog):

- Amrywiaeth o oleuadau o ansawdd, sydd wedi'u lleoli'n dda ac sy'n addas at bob diben.
- Rheolyddion sy'n rhoi lefelau amrywiol o olau fel sy'n briodol.
- Golau naturiol ardderchog.
- Digon o socedi trydan i gynnig hyblygrwydd.
- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir ac sy'n hawdd ei reoli gan westeion.

1.7.9 Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Yn ymwneud ag ansawdd, edrychiad, trefniant, maint a chyflwr pob gosodiad gan gynnwys gwresogyddion, gosodiadau goleuadau, drychau ac ati a phob dodrefnyn meddal e.e. polstri, llenni, bleinds ac ati.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Rhaid bod gan bob ffenestr lenni neu fleinds tywyll.
- Rhaid i o leiaf un ystafell wely i oedolion gynnwys bwrdd gwisgo neu rywbeth cyfatebol, gyda drych a chwppwrdd dillad, neu le i hongian dillad.
- Rhaid bod digon o ddroriau ym mhob uned a rhaid darparu o leiaf un ystafell ddwbl

neu bâr i oedolion. Gellir darparu digon o silffoedd yn lle droriau.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Darpariaeth gynnil ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a gosodiadau, o ran ansawdd ac amrywiaeth, ond nid oes fawr ddim yn cyfateb.
- Digon o ddroriau neu silffoedd.
- Gorchuddion ffenestri wedi'u gosod yn gywir.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Gosodiadau o ansawdd da, mewn cyflwr da.
- Maint a niferoedd y dodrefn meddal yn gymesur â'r lle sydd ar gael.
- Paru da.
- Digon o ddroriau neu silffoedd.
- Llenni sylweddol sy'n ddigon hir a llydan i orchuddio'r ffenestri.
- Gosodiadau goleuadau o ansawdd da sydd â lamplenni priodol.

Marc 5 (Ardderchog):

- Celfi modern o ansawdd ardderchog, sy'n gadarn, a digon o silffoedd. Dylai fod digonedd o fannau storio h.y. ar gyfer bagiau.
- Mae'r celfi wedi'u paru'n arbennig o dda ac mae'r dodrefn meddal moethus o'r radd flaenaf.
- Mae'r gorchuddion ffenestri yn edrych yn foethus, gall fod pelmetau a llinynnau rhwymo.
- Leinin o ansawdd wedi'i osod.
- Gosodiadau goleuadau o'r radd flaenaf.

1.7.10 Gorchuddion Llwr

Yn ymwneud ag ansawdd, math a chyflwr carpedi, rygiau, gorchudd finyl, lloriau pren ac ati.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Rhaid bod gan bob ystafell orffeniadau neu orchuddion llwr addas. Oni fydd carpedi wedi'u gosod, rhaid bod rygiau nad ydynt yn llithrig wrth ymyl y gwelyau.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Lloriau sy'n cynnig lefel ddigonol o gysur, sydd i gyd yn lân ac yn ateb diben, heb unrhyw draul.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Lloriau o ansawdd da sydd wedi'u gosod yn dda, ac sydd mewn cyflwr da, sy'n gyfforddus dan draed.

Marc 5 (Ardderchog):

- Lloriau o safon uchel sydd wedi'u gosod yn broffesiynol ac sydd mewn cyflwr ardderchog.

1.7.11 Gwelyau a Dillad Gwely

Yn ymwneud ag ansawdd a chyflwr gwelyau, matresi, pennau gwelyau, dillad gwely, cynfasau lliain ac ati.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Rhaid sicrhau bod pob gwely a matres mewn cyflwr da a bod digon o ddillad gwely ar gael, os ydynt yn cael eu darparu. Rhaid i bob matres fod yn un â sbrings neu sbwng, neu o ansawdd tebyg.
- Os darperir cynfasau lliain, rhaid eu newid cyn i westeion newydd gyrraedd ac fel sy'n briodol os bydd gwesteion yn aros mwy na phytthefnos. **Ni cheir defnyddio cynfasau neilon.**
- Meintiau gwelyau lleiaf a ganiateir:

| | |
|----------------------------------|-------|
| Oedolyn, sengl neu faint plentyn | 6'x2" |
| Dwbl oedolion | 6'x4" |
- Fel rheol bydd o leiaf un ystafell wely i oedolion heb welyau bync. Os mai dim ond gwelyau bync a ddarperir, rhaid nodi hyn wrth hysbysebu'r eiddo ac mewn manylion ysgrifenedig a anfonir at ddarpar westeion.
- Os gwneir defnydd achlysurol o welyau soffâ yn y llofa, rhaid nodi hyn yn glir yn y llyfryn a/ neu'r wybodaeth ysgrifenedig a roddir adeg archebu llety.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Gwely a matres o ansawdd derbyniol. Gellir defnyddio gorchuddion matresi plastig neu rwber ond ni chaiff hyn ei annog ar gyfer gwelyau i oedolion.
- Gwelyau taclus sydd â chynfasau lliain glân pan gânt eu darparu a gorchuddion gwely mewn cyflwr da.
- Digon o ddillad gwely, gan gynnwys digon o flancedi/duvet. Os darperir dillad gwely ychwanegol, dylent fod yn lân ac yn ffres, ac yn ddelfrydol, wedi'u lapio.
- Bydd yr holl ofynion uchod yr un mor gymwys i welyau ychwanegol, fel gwelyau soffâ.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Gwely cyfforddus o ansawdd da, matres caled a gwaelod cadarn. Gorchuddion matresi o ansawdd gwell.

- Gwelyau taclus sydd â digon o ddillad gwely a chynfasau lliain o ansawdd da, sydd newydd gael eu golchi, ac sy'n mynd gyda'i gilydd.
- Dylai fod gobennydd a dillad gwely ychwanegol ar gael.

Marc 5 (Ardderchog):

- Gwely o'r radd flaenaf, e.e. gwaelod a matres sbrings; pen gwely glân sy'n hynod gyfforddus. Gorchuddion matresi o safon uchel.
- Cynfasau lliain sydd newydd eu golchi ac sy'n mynd gyda'i gilydd a newidir bob deuddydd o leiaf. Dewis o ddillad gwely, e.e. cwrlid neu flanced tew, neu duvet sydd â'r tog priodol.
- Byddant i gyd o'r radd flaenaf, ac yn mynd gyda décor a dodrefn meddal arall yr ystafell wely.
- Bydd y gwely yn fwy o faint na'r hyn sy'n ofynnol.
- Bydd gobenyddion dialergedd ar gael.
- Mae pob dim fel pin mewn papur.

1.7.12 Glendid

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Mae'r holl arwynebau yn lân, ac nid oes unrhyw lwch.
- Mae pob ardal yn aroglí'n ffres ac yn lân.
- Mae'r holl garpedi wedi cael eu hwfro.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth o lwydni na marciau ar y llenni na'r ffenestri.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Telir sylw at fanylder gan gynnwys edrych ar y droriau a'r cypyrddau dillad.
- Rhoddir sylw penodol i ardaloedd ar lefel uchel ac isel e.e. ardaloedd ffenestri ac o dan welyau.

Marc 5 (Ardderchog):

- Safonau arbennig o uchel o lendid.
- Caiff pob ardal ei glanhau bob dydd mewn llety â gwasanaeth.
- Arwynebau sy'n disgleirio – tystiolaeth o lanhau trwyadl a sylw mawr at fanylder.

1.7.13 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau – À Gwasanaeth a Hunanddarpar

Addurniadau/Gorffeniad Mewnol

Yn ymwneud ag ansawdd a chyflwr gorchuddion waliau, nenfydau, ardaloedd wedi'u teilsio, ardaloedd wedi'u paentio, gwaith pren ac ati.

Gofynion mynediad sylfaenol

— Rhaid sicrhau bod popeth mewn cyflwr da.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Décor ymarferol sy'n gweithio.
- Dylai'r teils fod mewn cyflwr da.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Décor ymarferol sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Gorchuddion waliau a nenfydau sydd wedi'u gosod yn dda. Maent i gyd mewn cyflwr da. Mae'r seliwr a'r growt yn lân.

Marc 5 (Ardderchog):

- Dylunio mewnol ardderchog. Ôl broffesiynol i bob agwedd ar y gwaith addurno.
- Décor o'r radd flaenaf, gyda'r seliwr a'r growt mewn cyflwr ardderchog.
- Defnydd deniadol o addurniadau, lle y bo'n briodol.

Goleuadau/Gwres

Goleuadau

Yn ymwneud ag ansawdd, amrywiaeth, math, darpariaeth, edrychiad a lleoliad prif oleuadau a goleuadau eilaidd, darpariaeth a lleoliad socedi, switshys golau ac ati.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Rhaid bod ystafelloedd ymolchi/cawod a thoiledau wedi'u goleuo'n ddigonol gan olau trydanol.
- Pwynt rasel neu addasydd wrth y drych mewn ystafell ymolchi neu ystafell wely.

Gwres

Yn ymwneud ag amrywiaeth, math ac ansawdd gwres.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Dylai fod modd gwresogi pob ardal yn ddigonol, gan ystyried yr amser o'r flwyddyn a'r lleoliad.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Goleuadau sydd wedi'u gorchuddio'n ddigonol at ddefnydd ymarferol ac sydd mewn manau priodol.
- Mae digon o wres o ystyried maint yr ystafell.
- Awyru effeithiol.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Goleuadau wedi'u lleoli'n dda, gan roi lefelau da o goleuo e.e. dros drychau ac mewn cawodydd.
- Rheilen dywelion neu wresogydd panel yn y brif ystafell ymolchi.

Marc 5 (Ardderchog):

- Pob ardal wedi'i goleuo'n ardderchog.
- Ystafelloedd ymolchi a rennir ac en suite yn cael eu gwresogi.

1.7.14 Darnau Gosod a Gosodiadau

Yn ymwneud ag ansawdd, edrychiad, cyflwr, a hwylustod pob gosodiad e.e. gwresogyddion, gosodiadau goleuadau, drychau ac ati a phob dodrefnyn meddal e.e. llenni, bleinds ac ati.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Rhaid bod modd darparu dŵr poeth bob amser.
- Ffenestr sy'n agor a/neu awyru digonol.
- Rhaid bod gan bob ffenestr lenni neu fleinds tywyll.
- Rhaid bod gan bob llety o leiaf un ystafell ymolchi sydd â bath a/neu gawod, rheilen dywelion, toiled, teclyn dal papur tŷ bach a phapur tŷ bach a basn ymolchi â drych wrth ei ymyl.
- Os nad oes en suite, rhaid bod clo neu foltt ar ddrysau ystafelloedd ymolchi a thoiledau.
- Dylai gwaelod y gawod a/neu'r bath fod yn ddilithrig, neu dylid darparu mat bath nad yw'n llithro.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Gosodiadau o ansawdd derbyniol.
- Pwysedd dŵr digonol a draenio boddhaol.
- Gorchuddion ffenestri priodol, sydd wedi'u gosod yn gywir.
- Digon o le ar y silffoedd i gadw eiddo gwesteion.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Offer o ansawdd da, sy'n cyfateb, ac sydd wedi'u gosod yn dda.
- Offer ymolchfa sy'n cyfateb.
- Pwynt rasel wrth ymyl drych, os nad yw yn yr ystafell wely.
- Digonedd o le ar y silffoedd i gadw eiddo gwesteion.
- Gosodiadau goleuadau o'r radd flaenaf â lamplenni priodol.

Marc 5 (Ardderchog):

- Bath a/neu gawod, â darnau gosod a gosodiadau o ansawdd, e.e. bath mwy o faint, ciwbiclau cawod neu â sgrin gawod. Basn ymolchi maint llawn. Offer hawdd ei ddefnyddio.
- Offer ymolchfa seramig yn lle plastig.

- Gorchuddion ffenestri o safon uchel sydd wedi'u gosod yn dda, sydd â digon o orchudd ac sy'n ddigon llydan.
- Digonedd o le ar y silffoedd i gadw eiddo gwesteion, ac maent yn gyfleus i'w defnyddio.
- Gosodiadau o'r radd flaenaf, gan gynnwys switshys a chordiau tynnu.

1.7.15 Lloriau

Yn ymwneud ag ansawdd, math a chyflwr carpedi, rygiau, gorchudd finyl, lloriau pren heb ei baru'n dda iawn.

Gofynion mynediad sylfaenol

- Rhaid bod gan bob ystafell ymolchi orffeniadau neu orchuddion llawr addas.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Lloriau sydd wedi'u gosod yn gywir. Lloriau ymarferol sydd mewn cyflwr da, ac na ellir llithro arnynt.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Lloriau o ansawdd da sydd wedi'u gosod yn dda, ac sydd mewn cyflwr da, sy'n gyfforddus dan draed.

Marc 5 (Ardderchog):

- Lloriau o safon uchel sydd wedi'u gosod yn broffesiynol, sydd mewn cyflwr ardderchog.

1.7.16 Glendid

Marc 1 (Derbyniol):

- Mae'r holl arwynebau yn lân, ac nid oes unrhyw farciau.
- Mae'r carped/lloriau yn lân ac yn ffres.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Tystiolaeth o sylw at fanylder, gan gynnwys y tu ôl i doiledau ac ati.
- Lloriau fel pin mewn papur, llenni cawodydd sydd heb golli lliw.

Marc 5 (Ardderchog):

- Tystiolaeth o weithdrefnau cadw tŷ o'r radd flaenaf.
- Cyfarpar ac arwynebau wal wedi'u teilsio sy'n disgleirio ac yn ffres.
- Sylw mawr at fanylder, yn enwedig ffaniau echdynnu.

1.8 Ardaloedd Cyhoeddus (Gwasanaeth yn Unig)

1.8.1 Addurniadau/Gorffeniad Mewnol

Yn ymwneud ag ansawdd a chyflwr gorchuddion waliau, ardaloedd wedi'u teilsio, ardaloedd wedi'u paentio, gwaith pren ac ati.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid bod yr holl ardaloedd sydd wedi'u paentio, gwaith paent, gorchuddion waliau ac ati mewn cyflwr da.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Décor ymarferol, gan gynnwys y waliau a'r nenfydau;

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da iawn):

- Mae'r tu mewn yn braf, ac mae tystiolaeth o baru pethau o ran y dyluniad.
- Gorchuddion waliau o ansawdd da, sydd wedi'u gorffen yn dda.
- Defnydd o luniau ac ati, lle y bo'n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.

Marc 5 (Ardderchog):

- Décor o safon ardderchog sydd wedi'i baru'n dda iawn.
- Gorchuddion waliau a theils o safon uchel, sydd mewn cyflwr ardderchog, ac ôl broffesiynol i bob agwedd ar y gwaith addurno.
- Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurniadau eraill.

1.8.2 Goleuadau/Gwres

Goleuadau

Yn ymwneud ag ansawdd, amrywiaeth, math, darpariaeth, edrychiad a lleoliad prif oleuadau a goleuadau eilaidd, darpariaeth a lleoliad socedi, switshys golau ac ati.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid bod goleuadau trydan.

Gwres

Yn ymwneud ag ansawdd, math ac addasrwydd unrhyw wres – gwresogyddion, paneli wal neu nenfwd neu wres canolog.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Dylai fod modd gwresogi pob ardal yn ddigonol, gan ystyried yr amser o'r flwyddyn a'r lleoliad.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Lefelau digonol o oleuadau wedi'u gorchuddio sydd wedi'u lleoli'n briodol.
- Lefelau digonol o wres ym mhob ardal.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da iawn):

- Goleuadau mewn manau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol a chreu naws. Gellir rheoli'r goleuadau yn hawdd.
- Grisiau, landins a choridorau sydd wedi'u goleuo'n arbennig o dda.
- Digon o olau naturiol.
- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir â rheolyddion thermostatig.

Marc 5 (Ardderchog):

- Goleuadau o'r radd flaenaf mewn manau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol at ddibenion amrywiol e.e. darllen, bwyta. Bydd yn cynnwys goleuadau nenfwd a goleuadau ychwanegol, y mae'n hawdd eu haddasu. Gall gynnwys goleuadau uwchben y bwrdd bwyd os yw'n briodol.
- Lefelau ardderchog o wres, gan gynnig hyblygrwydd a chysur.
- Gwydr dwbl i gadw'r gwres i mewn.

1.8.3 Darnau Gosod, Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Ardaloedd byw/bwyta

Yn ymwneud ag ansawdd, edrychiad, cyflwr, trefniant, maint ac ati gosodion e.e. gwresogyddion, setiau teledu ac ati, a'r holl gelfi e.e. seddi a pholstri, byrddau bwyd a chadeiriau, cypyrddau, silffoedd, clustogau, llenni, bleinds. Ystyrir gosodiadau goleuadau a ffenestri hefyd.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid bod gan bob ffenestr lenni neu fleinds tywyll.
- Dylai fod cyfleusterau bwyta digonol ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion.
- Dylid darparu cadeiriau a/neu sofa, a digon ohonynt ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion a hysbysebiri yn y lolf a/neu'r bar.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Gall fod darpariaeth gyfynedig o gelfi, dodrefn meddal a gosodiadau, o ran ansawdd a niferoedd.
- Heb eu paru'n dda iawn. Llenni digon hir a llydan i orchuddio'r ffenestri.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Celfi o ansawdd da. Mwy o amrywiaeth o soffas a/neu gadeiriau breichiau â springs.
- Paru da. Llenni wedi'u leinio ar bob ffenestr.
- Gosodiadau goleuadau o ansawdd da sydd â lamplenni priodol.

Marc 5 (Ardderchog):

- Celfi o safon uchel. Lefel uchel o gysur. Digon o le i fwyta a chyfleusterau yn y bar ar gyfer yr uchafswm nifer o bobl.
- Celfi a defnyddiau wedi'u paru'n ardderchog.
- Gosodiadau goleuadau o'r radd flaenaf.

1.8.4 Lloriau

Yn ymwneud ag ansawdd, math a chyflwr carpedi, rygiau, gorchudd finyl, lloriau pren ac ati. Ystyriwch ba mor addas yw'r llawr gan gofio am hygyrchedd.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Lloriau sydd wedi'u gosod yn gywir.
- Ymarferol a dilithrig.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Lloriau o ansawdd da sydd wedi'u gosod yn dda, ac sydd mewn cyflwr da, sy'n gyfforddus dan draed.

Marc 5 (Ardderchog):

- Lloriau o safon uchel sydd wedi'u gosod yn broffesiynol, sydd mewn cyflwr ardderchog.

1.8.5 Glendid

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid i'r celfi a'r cyfarpar gael eu glanhau'n drwyadl cyn i westeion newydd gyrraedd.

Dangosyddion Ansawdd

Marc 1 (Derbyniol):

- Mae'r holl arwynebau a chyfarpar yn lân, ac nid oes unrhyw lwch.
- Mae'r holl garpedi wedi cael eu hwfro ac mae'r lloriau wedi cael eu glanhau.
- Tystiolaeth o sylw at fanylder, yn enwedig ar lefel uchel ac isel.

Marc 2 (Eithaf Da) – Marc 4 (Da lawn):

- Arwynebau glân a ffres heb unrhyw farciau.
- Pob ardal yn arogl'n ffres ac yn lân cyn i'r gwesteion gyrraedd.
- Lefel hynod uchel o lendid.

Marc 5 (Ardderchog):

- Arwynebau sy'n disgleirio, heb unrhyw grafiadau.
- Tystiolaeth o lanhau trwyadl a sylw mawr at fanylder.

2.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ddilyn a chadw at y Cod Ymddygiad canlynol:

- Rhaid trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu rywbeth tebyg a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio a diogelwch cymwys a rhwymedigaethau statudol eraill cymwys sydd ar waith.
- Rhaid cyrraedd safonau derbyniol o ofal a gwasanaeth i westeion, sy'n briodol ar gyfer y math o sefydliad.
- Rhaid i'r busnes gyrraedd safon uchel o lendid, a hynny'n gyson ymhob rhan o'r eiddo.
- Rhaid rhoi disgrifiad cywir o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw hysbyseb, llyfryn neu gyfryngau/deunydd marchnata print neu ddigidol arall.
- Sicrhau bod gwesteion yn gwybod beth yn union sydd wedi'i gynnwys ymhob proses a gweithdrefn a ddyfynnir, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau eraill. Rhaid hefyd nodi'n glir fanylion taliadau am wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol ar adeg archebu.
- Dylai gwesteion gael datganiad polisi clir ar ganslo gwyliau ar adeg archebu h.y. dros y ffôn, drwy e-bost, yn ogystal â'r wybodaeth a roddir mewn print.
- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd ar adeg archebu llety, ffioedd mynediad a gwasanaethau eraill, a pheidio â chodi mwy.
- Rhoi gwybod i westeion ar adeg archebu, ac wedi hynny, am unrhyw newid, os caiff y llety ei gynnig mewn anecs ar wahân neu rywbeth tebyg a dynodi lleoliad llety o'r fath ac unrhyw wahaniaeth o ran lefelau cysur a/neu amwynderau i'r llety yn y sefydliad.
- Ar gais, rhoi manylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb, os bydd angen, i westeion.
- Delio â phob ymholiad, cais, archeb a gohebiaeth gan westeion yn brydlon a chwrtais.
- Sicrhau bod gweithdrefnau delio â chwynion ar waith ac yr ymchwilir i bob cwyn a ddaw i law yn brydlon ac yn gwrtais, a bod y gwesteion yn cael gwybod y canlyniad.

- Rhoi sylw priodol i ofynion unigol gwsteion ag anabledau, a gwneud darpariaeth addas lle y bo'n gymwys.

3.0 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan

Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau Croeso Cymru:

- Ddilyn Cod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Caniatáu i gynrychiolydd o Croeso Cymru neu ar ran Croeso Cymru gael mynediad rhesymol i'r busnes, ar gais, er mwyn sicrhau bod gofynion statws "Cymeradwywyd" a'r "Cod Ymddygiad" yn cael eu bodloni'n llawn.
- Darparu datganiad mynediad/canllaw hygyrchedd.
- Rhaid i bob busnes gyflawni ei Rwymedigaethau Statudol.
- Ni all unrhyw fusnes sy'n cynnig llety i breswylwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau nac sy'n gweithredu fel hostel lloches gymryd rhan yn y cynllun.

4.0 Newid Perchenogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, ni all y radd bresennol gael ei throsglwyddo i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i gymryd rhan yng nghynllun gradd sêr Croeso Cymru.

5.0 Arwyddion

Arwyddion, Tystysgrifau a Logos Electronig. Pan na fydd sefydliad, am ba reswm bynnag, yn cymryd rhan yng Nghynllun Ansawdd Croeso Cymru sy'n gymwys i'w fath o fusnes mwyach, rhaid cael gwared ar unrhyw arwyddion/tystysgrifau perthnasol a logos cysylltiedig Croeso Cymru a thestun ar ddeunydd argraffedig ar unwaith. Os na wneir hyn, ni fydd modd i'r sefydliad arddangos na defnyddio ardystiad Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd o gwbl.

6.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

Os na fyddwch yn cytuno â'r radd sêr y mae eich eiddo wedi'i chael, neu os na fyddwch yn cytuno ag unrhyw agwedd ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, cysylltwch cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gael eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0845 0108020 neu anfonwch e-bost i quality.tourism@llyw.cymru a gwnawn geisio helpu.

Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR.

OGL

ISBN Digidol: 978-1-80195-624-6

© Hawlfraint y Goron 2021

WG41604



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ffôn: 0845 010 8020

Ffacs: 0300 062 2081

E-bost: quality.tourism@llyw.cymru